

LLAIS



Eich llais mewn iechyd | Your voice in health
a gofal cymdeithasol | and social care

Adroddiad Ymgysylltu Rhanbarth Llais Powys



Haf 2023

FFORMATAU HYGYRCH

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn
fformat a/neu iaith arall,
cysylltwch â ni ar
ymholiadau@llaiscymru.org.

Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu ofyn am
gopi drwy gysylltu â'n
swyddfa.

CYNNWYS

Amdano Llais.....	4
Cefndir.....	5
Sioe Frenhinol Cymru.....	6
Sioe Sir Aberhonddu	11
Sioe Cegidfa.....	15
Gŵyl Caredigrwydd Y Drenewydd	19
Sioe a Charnifal Tref-y-clawdd	22
Sioe Pontsenni	25
Crynodeb.....	30
Diolch	31
Manylion Cyswllt.....	31
Adborth.....	31

AMDANO LLAIS



Rydym ni'n credu mewn Cymru iachach lle mae pobl yn cael y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd eu hangen arnyn nhw mewn ffordd sy'n gweithio orau iddyn nhw


Rydym yma i ddeall eich barn a'ch profiadau o iechyd a gofal cymdeithasol, ac i sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn defnyddio'ch adborth i lunio'ch gwasanaethau.

Rydym yn chwilio am straeon da a drwg fel ein bod yn deall beth sy'n gweithio'n dda a sut y gallai fod angen i wasanaethau wella. Ac rydym yn ceisio siarad yn arbennig â'r rhai nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml.

Rydym hefyd yn siarad â phobl am eu barn a'u profiadau trwy gynnal digwyddiadau yn eich cymunedau lleol neu ymweld â chi ble bynnag yr ydych yn derbyn eich gwasanaeth iechyd neu ofal cymdeithasol. Rydym hefyd yn gweithio gyda grwpiau cymunedol a grwpiau â diddordeb ac yn unol â mentrau cenedlaethol i gasglu barn pobl.

A phan aiff pethau o chwith rydym yn eich cefnogi i wneud cwynion.

Mae 7 Rhanbarth Llais yng Nghymru. Mae pob un yn cynrychioli llais "claf a chyhoeddus" mewn gwahanol rannau o Gymru.



CEFNDIR

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r hyn a glywsom pan oeddem yn ymgysylltu â phobl ym Mhowys yn ystod haf 2023.

Aethom i nifer o sioeau'r haf i godi ymwybyddiaeth o'r sefydliad ac i gael barn a phrofiadau pobl o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Dyddiad: 24-27 Gorffennaf 2023

Yr hyn a wnaethom

Trefnwyd bod gennym bresenoldeb yn Sioe Frenhinol Cymru am bedwar diwrnod y sioe. Digwyddiad cenedlaethol oedd hwn a gwahoddwyd staff a gwirfoddolwyr o bob rhan o Gymru i gymryd rhan. Roedd y stondin wybodaeth ar agor ar ddydd Llun, dydd Mawrth a dydd Mercher. Oherwydd nifer y staff a'r gwirfoddolwyr oedd ar gael ar y dydd Iau, nid oedd y stondin ar agor i'r cyhoedd ond roedd aelod o staff yn rhwydweithio ac yn ymgysylltu o amgylch maes y sioe.

Y prif resymau dros gynnal stondin yn y sioe oedd:

- Codi ymwybyddiaeth o Llais ac ymgysylltu â'r cyhoedd a sefydliadau eraill sy'n bresennol yn y sioe
- Lledaenu ymwybyddiaeth o Wasanaeth Eiriolaeth Cwynion Llais
- Cael barn pobl ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
- Gofyn am adborth ar iechyd a gofal cymdeithasol gwledig
- Mynd ati i rannu'r holiadur thematig Cenedlaethol 'Dweud eich dweud ar Llais' a'r arolwg 'Rhannwch eich Stori'
- Annog pobl i ystyried dod yn wirfoddolwr i Llais

Fe wnaethom ymgysylltu â thua 400 o bobl yn ystod y digwyddiad. Derbyniodd rhai pobl y taflenni gwybodaeth yn unig, derbyniodd eraill wybodaeth a dolenni i'r arolygon ar-lein ac roedd rhai pobl yn barod i rannu eu barn â chynrychiolwyr Llais. Roedd copïau papur o'r arolygon ar gael hefyd i bobl nad oeddent yn gallu eu cwblhau ar-lein.

Buom hefyd yn siarad â chynrychiolwyr sefydliadau eraill, i godi ymwybyddiaeth o Llais.

Roedd pobl yn gallu gosod cownteri mewn potyn i ddangos a oeddent yn teimlo bod gwasanaethau'n dda neu y gellid eu gwella. Pan oedd pobl yn rhoi tocyn yn y potyn 'gellid ei wella', roeddem yn eu gwahodd i rannu eu sylwadau ar gerdyn post.

Cownteri

GIG Da = 31

Gallai'r GIG fod yn well = 17

Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Da = 8

Gallai Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol fod yn well = 12

Sylwadau cerdyn post wedi'u derbyn

Gwasanaethau'r GIG

Mam, aros am 3 mis, haint y frest, ysbyty.

Gwasanaethau Saesneg, digwyddiadau teuluol.

Deintyddiaeth - Haint mewn dant – mewn poen- aros 2 wythnos am gael tynnu dant hyd yn oed ar ôl ffonio llinell argyfwng. Rhondda.

Hoffem weld mwy yn cael ei wneud yng Ngogledd Cymru gan nad yw'r rhestr aros yn dda.

Nid yw amseroedd apwyntiad mewn meddygfa yn dda.

Gallai wneud yn well. Rhestrau aros hir ar gyfer gwasanaethau fasgwlar yng Ngogledd Cymru.

Y System Meddygon Teulu. Mae cael apwyntiad yn profi'n anodd.

Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol

Dylai gofalwyr gael mwy o dâl. Nid yw amseroedd teithio yn ddigon i ddiwallu anghenion cleientiaid. Anodd mewn ardaloedd gwledig. Geiriau gofalwr sydd wedi ymddeol.

Yr hyn a glywsom

Y themâu a godwyd amlaf yn ystod sgysiau oedd:

- Mynediad at wasanaethau meddygon teulu
- Anhawster cael mynediad at ddeintyddion y GIG
- Hyd yr amser aros ar gyfer triniaeth wedi'i drefnu
- Prinder gweithwyr gofal a staff gofal iechyd

- Mynegodd rhai pobl anfodlonrwydd gyda'r systemau brysbennu a methu â gweld meddyg teulu wyneb yn wyneb. Mynegwyd pryderon am yr amser aros ar gyfer apwyntiadau ac nid oedd pobl yn hapus gyda hyd yr aros am apwyntiadau ffôn. Roedd rhai sylwadau am yr amser a neilltuwyd ar gyfer apwyntiadau nad ydynt bob amser yn ddigon hir. Siaradodd rhai pobl am brinder meddygon teulu ac roeddent yn ymwybodol, pan oedd meddygon teulu yn ymddeol, ei bod yn anodd recriwtio rhai newydd. Esboniodd rhai pobl bod eu meddygfa agosaf wedi cau.
- Clywsom gan bobl nad oeddent yn gallu cofrestru gyda deintydd GIG yn agos atynt. Roedd rhai pobl ar restr aros a dywedodd y gallai fod yn ddwy flynedd cyn y gellir eu gweld. Teithiodd rhai pobl gryn bellter i gael mynediad at ddeintydd GIG - i rai pobl, roedd hyn yn Lloegr. Roedd rhai pobl yn defnyddio deintydd preifat a dywedodd eraill nad oedden nhw'n gallu fforddio mynd at ddeintydd preifat. Roedd gan rai pobl bryderon am gyflwr eu dannedd ond doedden nhw ddim yn gallu gweld deintydd. Dywedodd un person eu bod wedi teithio dramor am driniaeth ddeintyddol.
- Mynegodd pobl eu pryderon am amseroedd aros ar gyfer gofal sydd wedi'i gynllunio. Roedd rhai pobl yn aros eu hunain ac roedd gan bobl eraill berthnasau oedd yn aros. Roedd rhai pobl yn dweud eu bod wedi gorfod aros mwy na 5 mlynedd am driniaeth. Siaradodd rhai pobl am dalu am driniaeth yn breifat a chlywsom am bobl oedd wedi sefydlu 'crowdfunding' neu gyfrifon tebyg i geisio codi arian i dalu am driniaeth breifat neu driniaeth dramor.

Dywedodd pobl ei bod yn ymddangos fel pe bai gennym system iechyd dwy haen erbyn hyn neu ei bod yn edrych fel pe baem yn mynd i lawr y llwybr hwnnw. Cawsom rai sylwadau y dylid preifateiddio'r GIG, mynegodd eraill bryder ei fod yn ymddangos ei fod yn symud tuag at breifateiddio.

- Roedd nifer o bobl y buom yn siarad â nhw yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol. Dywedodd rheolwr asiantaeth gofal bod recriwtio staff gofal yn anodd iawn, hefyd bod cadw staff yn her yn enwedig pan roedd pobl yn sylweddoli eu bod yn gallu ennill mwy o arian yn gweithio mewn sector gwahanol, e.e mewn archfarchnad. Problem i ofalwyr mewn ardaloedd gwledig yw'r pellter y mae'n rhaid iddynt deithio i ddarparu gofal. Siaradodd pobl am y diffyg darpariaeth gofal cymdeithasol i bobl sy'n gadael yr ysbyty, a arweiniodd at bobl yn

aros yn yr ysbyty yn hirach nag y dylen nhw a'r ysbytai fod yn llawn.

- Cafodd amseroedd aros am ambiwlansys eu codi gan rai pobl. Dywedodd un person fod WAST wedi rhoi'r gorau i gynnig goramser i staff ac, os oedd staff i ffwrdd yn sâl, nid oedd y shifft yn cael ei chynnig i staff eraill ac felly aeth yn ddi-griw.
- Buom yn siarad ag un person oedd wedi cael cynnig apwyntiad ysbyty drwy fideo - doedd ganddyn nhw ddim cyfleusterau i allu defnyddio fideo ac roedden nhw'n teimlo bod yn rhaid iddyn nhw frwydro i gael apwyntiad wyneb yn wyneb.
- Mynegwyd pryderon am ddiffyg gwasanaethau iechyd meddwl. Cawsom sylw am nifer y bobl ifanc mewn argyfwng. Siaradodd un person am ddiffyg cael staff iechyd meddwl newydd pan oedd staff yn gadael, oedd yn golygu fod claf wedi cael ei gyfeirio'n ôl at eu meddyg teulu am gymorth.
- Codwyd pryder am wasanaethau niwrolegol plant, yn enwedig hyd yr aros am asesiad plentyn ar gyfer aspergers/awtistiaeth. Roedd yr ysgol wedi gwneud popeth o fewn eu gallu i gefnogi'r asesiad ond roedd yn ymddangos nad oedd ymateb gan y Bwrdd Iechyd. Roedd ymdeimlad o gael ei anwybyddu.
- Cafodd diffyg cefnogaeth/gwasanaethau i bobl ag anafiadau i'r ymennydd ei godi gan rywun o Ogledd Cymru. Y rhwystredigaeth fwyaf a fynegir gan bobl yw eu bod yn teimlo eu bod yn grŵp anghofiedig nad yw eu llais yn cael ei glywed. Mae gallu dychwelyd i'r gwaith yn rhwystredigaeth iddyn nhw ac mae hyn yn cael effaith ar eu bywydau.
- Codwyd y broblem o ddiffyg gwasanaethau ar gyfer dibyniaeth ar alcohol.
- Mynegwyd pryderon cyffredinol am ddiffyg cyllid ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hefyd yn dweud bod gormod o reolwyr.
- Cawsom sylwadau am gyfathrebu gwael.
- Dywedodd pobl, unwaith eu bod yn gallu cael mynediad at wasanaethau, eu bod yn teimlo bod y gofal yn dda iawn. Cawsom sylwadau cadarnhaol am feddygon teulu, triniaethau llawfeddygol ac ôl-ofal, gwasanaethau mamolaeth, diagnosis a thriniaeth canser,

gofal i'r henoed yn yr ysbyty, gofal yn yr Uned Llosgiadau orthodonteg, gofalu am blentyn ar ôl torri ei fraich

- Dywedodd ychydig o bobl oedd wedi symud o wahanol ardaloedd yn Lloegr eu bod yn teimlo bod gwasanaethau yn well yng Nghymru.
- Fe wnaethom siarad â fferyllydd a oedd yn falch o allu cynnig ystod ehangach o wasanaethau nawr. Roedden nhw'n gresynu na fyddai hyn wedi cael ei gyflwyno flynyddoedd yn ôl. Roedden nhw'n teimlo bod cleifion yn dysgu am eu gwasanaethau ar lafar yn amlach ond roedd eu meddygfa leol yn dechrau gwneud atgyfeiriadau atynt.
- Siaradodd person yn gadarnhaol iawn am y Tîm Adnoddau Cymunedol yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Doedden nhw ddim yn meddwl bod hyn yn cael ei gynnig mewn ardaloedd awdurdodau lleol eraill ac roedden nhw'n meddwl bod angen mwy o gysondeb mewn gwasanaethau fel hyn ledled Cymru.



SIOE SIR ABERHONDDU

Dyddiad: 5fed Awst 2023

Yr hyn a wnaethom

Daeth gweithwyr a gwirfoddolwyr Llais i Sioe Sir Aberhonddu gyda'r babell. Gwnaethom osod bwrdd a oedd yn arddangos y jariau i bobl allu pleidleisio ar sut roeddent yn teimlo bod gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd yn perfformio (da neu y gellid eu gwella). Roedd gennym arolwg hefyd y gellid ei gyrchu trwy god QR neu gallai pobl lenwi copi papur tra yn ein stonin neu mynd ag ef gyda nhw ynghyd ag amlenni wedi'u cyfeirio ymlaen llaw. Roedd gennym hefyd gardiau post ar y stonin lle anogwyd ymwelwyr i'w llenwi. Roedd y tywydd yn ofnadwy ar y diwrnod ac i ddechrau roedd pryder na fyddai llawer o bobl yn dod i siarad â ni; yn ffodus fe wellodd y tywydd yn gynnar yn y prynhawn.

Yr hyn a glywsom

Cownteri

GIG Da = 4

Gallai'r GIG fod yn well = 4

Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Da = 1

Gallai Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol fod yn well = 3

Arolygon 2

Sgyrsiau 56

Gwasanaethau Gofal Iechyd

Methu cael apwyntiad yn hawdd iawn gyda meddyg teulu. Nid yw'r ffôn yn cael ei ateb. Dylid symud y feddygfa i ysbyty lleol gan ei gwneud yn

ganolfan.

Mae'n anodd iawn cysylltu â meddygfa – mae'r llinell ffôn wastad yn brysur - yn aml does dim modd gwneud apwyntiadau - "Rhy bell o flaen llaw", "Meddyg ddim ar gael," "ffonio ar y diwrnod" ac ati. Ychydig neu ddim cyfathrebu rhwng ymgynghorydd a meddyg. Dim gwybodaeth – neu o leiaf ychydig iawn. Aros yn hir. Profiad personol o aros 4 blynedd am driniaeth ar y galon - gwybodaeth ddryslyd iawn. Fy marn i - cysylltiadau gwael rhwng yr holl wasanaethau – Meddygon/ysbytai/gwasanaethau cymdeithasol. Deintyddol – trosglwyddo i breifat! (Yn ffodus, gallwn wneud.) Mae aros yn hir yn annifyr - hefyd yn cael effaith ar yswiriant. Mae angen llawer mwy o gyfathrebu rhwng pob grŵp iechyd.

Ni allaf weld meddyg teulu. Mae'r nyrsys bellach yn gweithio'n galetach na'r meddygon teulu. Yn y bôn nawr mae'n rhaid i chi edrych ar ôl eich hun.

Brwydro i gael apwyntiad ym Mhractis Crughywel yn ystod y cyfnod clo pan oedd fy chwarennau wedi chwyddo. Yn y diwedd, cefais apwyntiad ffôn. Yn ffodus mae aelod o'r teulu yn feddyg ac yn fy archwilio. Roeddwn i'n arfer bod gyda deintydd GIG ond roedd yn rhaid i mi fynd yn breifat oherwydd triniaeth wael.

Mae deintydd yn Ystradgynlais yn ceisio mynd yn breifat ar hyn o bryd. Bellach, mae'n ymddangos nad yw'r gwasanaethau a arferai fod ar gael ar y GIG ar gael erbyn hyn. £500 i dynnu dant yn breifat ond roedd yn well ganddynt wneud hyn gan fod un deintydd yn dweud na allent warantu peidio â gadael darnau o ddant i mewn ond yn dal i gynnig gwasanaeth preifat. Mae gan fy merch [...] ac yn methu gweithio, mae'r GIG wedi bod yn eithaf da ond mae mynd trwy Ferthyr wedi bod yn uffern.

Ni ddylai pobl allu erlyn y GIG am esgeulustod, ni allant ei fforddio. Ar hyn o bryd mae data sylfaen datrysiadau'r GIG wedi dangos bod 200 biliwn o bunnoedd yn ddyledus mewn hawliadau esgeulustod yn y dyfodol. Mae pobl yn camddefnyddio'r GIG.

Ceisio cyfeirio pobl at ddeintydd lleol yn Y Fenni at bractis preifat oherwydd diffyg offer soffistigedig ar gyfer triniaethau neilltuol cymhleth ac ati. Methu fforddio hyn ac ni allant ddeall pam nad yw'r triniaethau hyn yn cael eu cynnwys o dan y GIG. Yn fodlon ar wasanaeth ym Meddygfa Aberhonddu. Mae gwasanaethau Gofal Sylfaenol yn cael eu

tanddefnyddio (mae mab yn gweithio fel meddyg mewn ysbyty). Mae gormod o bobl yn mynd yn syth i'r ysbyty yn hytrach nag ymweld â meddyg teulu. Gwastraff amser ysbyty.

Bu'n rhaid cyflwyno cwyn ffurfiol yn erbyn y Feddygfa. Roedd [...], angen llythyr (tystysgrif feddygol) a gymerodd 3 wythnos ac fe gostiodd £20. Ni chefais wybod am y cyfnod aros, ni allai 3 derbynnydd ddweud wrthyf pa mor hir y byddai. Cwyn ffurfiol i'r Rheolwr Practis. Mae angen mwy o hyfforddiant ar dderbynnyddion ac maent yn drahaus iawn ac mae angen iddynt fod yn ymwybodol o amseroedd prosesu. Ysbyty Tywysog Charles yn rhagorol. Ffonio oherwydd poen o [gyflwr a enwyd] a chael fy ngweld y diwrnod wedyn. Mae popeth yn broffesiynol ac yn effeithlon. Cyfeirio at Wasanaeth Eiriolaeth Llais

Yn hynod o hapus gyda Meddygfa Cwm Dulais. Nid oedd erioed wedi cael trafferth cael mynediad i apwyntiad. Yn meddwl mai'r bobl sydd yn cwyno yw'r rhai sy'n disgwyl apwyntiad bob wythnos.

Dywedodd ei meddyg teulu wrth y person ei bod angen prawf gwaed. Yn y pen draw, cafodd ddyddiad am 20 diwrnod yn ddiweddarach. Cwynodd i'r feddygfa ond ni chafodd unrhyw ymateb. Rhoddwyd manylion eiriolaeth iddi

Mae neges groeso mewn meddygfa yn llawer rhy hir. Yn ffodus wedi cofrestru gyda Deintydd GIG gan fod hynny'n bryder i lawer. Roedd yn rhaid i briod fynd yn breifat am [driniaeth] oherwydd y boen, fe gostiodd £14,000.

Gwych yn Coelbren. Ni ellir ei feio. Beirniadaeth fach yw mai dim ond rhwng 7am a 9am y mae "Gofynnwch i'm meddyg" ar gael. Mae brysbennu yn gweithio'n wych. Roedd gan bartner broblem clust yn ddiweddar ac fe'i gwelwyd o fewn awr ar ôl ffonio.

Mae Deintyddiaeth Aberhonddu yn broblem, does dim deintyddiaeth GIG. Roedd yna 3 deintydd yn Aberhonddu a bellach does dim un. Maent i gyd yn eiddo i'r un person. Nid oes unrhyw ap GIG. Wrth fyw yn Lloegr roedd ganddyn nhw Ap GIG da iawn ond maen nhw wedi cael gwybod nad oes un yn Aberhonddu. Dymuno rhwydweithio gyda Llais i drafod agweddau digidol ar ofal iechyd, llwybrau cleifion, gwasanaethau a phrofiadau.

Mor lwcus i gael deintydd yn Y Gelli. Mae argyfwng "preifat" yn Aberhonddu, mae pobl yn gyrru o Bontsenni i'r Gelli gan nad ydyn nhw'n gallu cael triniaeth GIG. Monopoli yn Aberhonddu - perchnogaeth breifat ar ddeintyddion. Mae'n anodd cael eich gweld mewn meddygfa heb aros yn hir. Wedi cael problem awdioleg, aros mis, dywedwyd wrtho i roi dau fis. Mae gormod o benaethiaid yn y GIG. Mae angen i arian fynd i wasanaethau yn hytrach na rheolaeth lefel ganol.

Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol

Wedi cael trafferth cael help gyda chymorth symudedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Cysylltu â swyddfa ardal.

Nid yw gwasanaethau cymorth i oedolion awtistig cystal ag y gallent fod.

Yn disgwyl am ddiagnosis ADHD am 18 mis. Roedd rhaid i mi fynd yn breifat. Mae merch yn gweithio fel gofalwr cartref ac yn bryderus iawn am ei hamserlen, weithiau mae'n gorfod rhoi pobl i'r gwely mor gynnar â 6pm (amser hir cyn i'r person fod yn barod).

Y broblem fwyaf yw nad yw pobl yn cael pecyn i fynd adref o'r ysbyty pan maen nhw'n barod i adael.

Arall

Atal pobl dramor rhag dod yma i weithio ym maes gofal iechyd. Mae gan y rhai sy'n dod amser prosesu hir ar gyfer fisâu sy'n rwystr.

SIOE CEGIDFA

Dyddiad: 10 Awst 2023

Yr hyn a wnaethom

Mynychodd gweithwyr a gwirfoddolwyr Llais Sioe Cegidfa gyda'r babell. Gwnaethom osod bwrdd a oedd yn arddangos y jariau i bobl allu pleidleisio ar sut roeddent yn teimlo bod gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd yn perfformio (da neu y gellid eu gwella). Roedd gennym arolwg hefyd y gellid ei gyrchu trwy god QR neu gallai pobl lenwi copi papur tra yn ein stondin neu mynd ag ef gyda nhw ynghyd ag amlenni wedi'u cyfeirio ymlaen llaw. Roedd gennym hefyd gardiau post ar y stondin lle croesawyd ymwelwyr i'w llenwi.

Yr hyn a glywsom

Cownteri

GIG - Da = 7

Gallai'r GIG fod yn well = 5

Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Da = 2

Gallai gwasanaethau gofal cymdeithasol fod yn well = 4

Arolygon 5

Sgyrsiau 51

Gwasanaethau Gofal Iechyd

Mae mynediad at feddygon teulu yn amhosibl. Roedd llawdriniaeth cataract yn dda.

Nid oes modd cael mynediad i apwyntiad meddyg ym Meddygfa'r Trallwng.

Mae Meddygfa Maldwyn yn gwella, maen nhw wedi cyflogi mwy o feddygon felly mae'n haws cael apwyntiad erbyn hyn.

Dim deintydd GIG yn y Trallwng. Gallu cael apwyntiad yn gyflym iawn yn y Trallwng. Mae'r meddygon bob amser yn ddymunol ac yn gyfeillgar. Mae mam wedi cael diagnosis o dementia yn ddiweddar ac yn byw mewn cartref gofal ac maen nhw wedi bod yn wych.

CANLYNIAD – Cyfeiriad at Credu/ Rhwydwaith Gofal Dementia / PAVO gan iddynt ofyn am gyngor ar wasanaethau cymorth.

Yn hapus gyda chyngor diabetig sydd ar gael ond yn pryderu bod meddygon teulu eisiau eich rhoi ar gyffuriau yn unig.

Collodd menyw ei gŵr yn ddiweddar ac roedd Ysbyty'r Trallwng yn wych. Deintyddion - Anodd cael Deintyddiaeth y GIG yn Y Trallwng felly maen nhw wedi dewis mynd yn breifat yn ddiweddar.

Anodd cael apwyntiad gyda Nyrs. Defnyddir Meddygfa Llanfyllin fel arfer. Mae'r gwasanaeth presgripsiynu yn dda iawn yn y fferyllfa.

Hapus iawn gyda'r gwasanaeth ym Meddygfa'r Trallwng. Mae pryder am ddiffyg DGH ym Mhowys. Roedd llawdriniaeth yn Gobowen yn wych. Roedd ôl-ofal o ysbyty'r Trallwng yn wych a'r holl offer i helpu cerdded ar ôl cael llawdriniaeth.

Siarad â rhywun y mae ei wraig yn gweithio yn Gobowen ac yn dweud bod problem gyda chleifion sydd wedi cael eu hasesu fel rhai addas i'w rhyddhau ond nad oes modd eu hanfon adref yn syth. Mae'n rhaid eu rhyddhau i ysbyty yng Nghymru yn gyntaf ac yna adref oddi yno. Mae hyn yn arafu'r broses gan ei bod yn bosib na fydd lle iddyn nhw mewn ysbyty yng Nghymru.

Hapus gyda'r ddarpariaeth ddeintyddol ond gorfod mynd allan o'r sir i Groesoswallt.

Mae gofal canser wedi bod yn ardderchog. Hapus iawn gyda hynny.

Llwyddo i gael triniaeth ddeintyddol yn Llanfair Caereinion ar fyr rybudd.

Daeth gŵr bonheddig y gwnaethon ni gyfarfod yng ngharnifal y Trallwng i'n stondin i ddweud ei fod yn dal i gael trafferth cael brechlynnau o Feddygfa Maldwyn ar gyfer ei deithio ar wyliau. Mae

Meddygfa Maldwyn wedi ei anfon i Boots yn Amwythig am fwy o wybodaeth. Wedi defnyddio ein gwasanaeth Eiriolaeth ar gyfer y broblem hon ac wedi cadarnhau bod ein tîm wedi bod yn ddefnyddiol iawn.

Mae Meddygfa Y Drenewydd wedi bod yn dda iawn trwy driniaeth cancer priod. Maen nhw bob amser yn gweld Nyrsys, ond maen nhw'n wybodus iawn, weithiau yn fwy felly na meddygon teulu. Rhoddwyd cyngor da gan nyrsys ar ddiabetes yn y feddygfa, nyrsys yn bennaf eto. Mae Lingen Davies wedi bod yn rhagorol.

Roedd angen mynd at ddeintydd preifat i gael triniaeth gan na allai gael apwyntiad GIG. Dal yn rhwystredig gyda'r gwasanaeth preifat a gymerodd sawl wythnos.

Pryderu bod Gogledd Powys yn dod yn barth anghofiedig o ran gofal iechyd. Dim mynediad at wasanaethau mân anafiadau felly gorfod teithio i'r Drenewydd: Wedi hynny anfonwyd i'r Amwythig. Roedd yn arfer bod yn fynediad 24 awr i Mân Anafiadau yn y Drenewydd. Ar gau ar benwythnosau felly aeth i'r Amwythig eto. Beth sydd wedi digwydd i Brosiect Llesiant Gogledd Powys!? Nid oes unrhyw wybodaeth yn cael ei rhannu am hyn.

Hapus iawn gyda'n holl driniaeth.

Arolwg - GIG - mae'r staff ar lawr gwlad yn dda, ond does dim angen rheolwyr canol.

Arolwg - Yn byw yn Y Drenewydd. Dim deintydd GIG, wedi mynd yn breifat felly. Dim yn deg i'r rhai na allant ei fforddio. Mae argyfwng yn digwydd yn yr ardal. Mae angen talu mwy am ddeintyddiaeth. Mae angen i'r Llywodraeth fod yn fwy arloesol wrth ddenu deintyddion. Mae trigolion y Trallwng yn mynd i'r Amwythig.

Arolwg - Ardderchog. Ymateb cyflym iawn, ôl-ofal gwych.

Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol

Arolwg - Mae person ifanc sydd eisoes â phroblemau iechyd yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at wasanaethau.

Arolwg - Cysylltais â'r gwasanaethau cymdeithasol oherwydd nad oedd perthynas oedrannus bellach yn cael unrhyw ymweliad gan ofalwr. Dywedodd y person y siaradais ag ef y byddai'n siarad â'r person dan sylw ac yn dod yn ôl ataf. Ni dderbyniwyd unrhyw alwad yn ôl.

GŴYL CAREDIGRWYDD Y DRENEWYDD

Dyddiad: 19 Awst 2023

Yr hyn a wnaethom

Digwyddiad cymunedol oedd Gŵyl Caredigrwydd Y Drenewydd sy'n ymroddedig i hyrwyddo caredigrwydd a chefnogi'r strategaeth gwrthdodi yn y Drenewydd. Trefnwyd y digwyddiad gan Powys Gyda'n Gilydd sy'n brosiect bro sy'n gweithio gyda chymunedau yng ngogledd Powys. Roedd y pwyslais yn fawr ar garedigrwydd a rhoi ac nid oedd tâl i stondinwyr a dim ffioedd mynediad i'r gymuned. Gofynnwyd i stondinwyr ddarparu rhywbeth am ddim i'r gymuned – gweithgaredd, gwybodaeth neu rai nwyddau am ddim, samplau bwyd neu ddiodydd ac ati.

Aethom â'n pabell a'n taflenni gwybodaeth, ynghyd â digon o eitemau hyrwyddo i'w rhannu. Roedd un aelod o staff a dau wirfoddolwr wedi ymgysylltu â dros 150 o bobl ar y diwrnod.



Roedd llawer o'r ymgysylltu yn egluro i bobl am waith Llais a rhannu eitemau hyrwyddo. Roedd gan lawer o bobl ddiddordeb mewn gwybod am yr hyn rydym yn ei wneud gan nad oeddent wedi clywed am yr sefydliad o'r blaen. Fe wnaeth y rhan fwyaf o'r bobl y buom yn siarad â nhw gymryd copi o'r daflen wybodaeth - fe'u hanogwyd i rannu eu profiad o iechyd a gofal cymdeithasol

drwy'r arolwg 'Rhannu Eich Stori' ar y wefan. Roedd copïau papur ar gael i bobl na fyddent yn gallu cael mynediad i arolwg ar-lein.

Gwnaethom ddarparu manylion cyswllt ar gyfer y Gwasanaeth Eiriolaeth i bobl a oedd yn siarad am bryderon a oedd ganddynt gyda'r gwasanaethau yr oeddent yn eu derbyn.

Cawsom ein ffilmio gan un o drigolion y Drenewydd ar gyfer ei sianel YouTube 'Just Roaming Around' ac fe wnaethom ddarparu esboniad byr o'n gwaith.

Yn ysbryd y digwyddiad, gwnaethom rannu ein pabell gyda'r Hwylusydd Cyfranogiad Cyhoeddus o Ymddiriedolaeth GIG Amwythig ac Ysbyty Telford, gan fod y babell y byddent yn ei defnyddio fel arfer mewn digwyddiad arall.

Yr hyn a glywsom

Ni chawsom sgysiau manwl gyda llawer o bobl. Trafodwyd y themâu canlynol yn ystod y sgysiau a gawsom:

- Mynediad at wasanaethau meddygon teulu - clywsom farn gymysg gyda rhai pobl yn esbonio eu bod yn hapus gyda'u meddygfa ac eraill yn adrodd am broblemau, megis anhawster cael apwyntiadau, dim digon o feddygon teulu yn y practis lleol, dim yn hoffi brysbennu.
- Anhawster cael mynediad at wasanaethau gofal cymdeithasol. Dywedodd rhai pobl nad oedden nhw'n siŵr sut i fynd ati i gael mynediad at wasanaethau, gwnaeth rhai pobl sylw ar y diffyg gofalwyr. Cawsom sylwadau am anhawster recriwtio a chadw gofalwyr oherwydd y cyflog isel ac nad oedden nhw'n derbyn costau teithio.
- Dim digon o wasanaethau blynyddoedd cynnar ar gael i blant.
- Mynediad at ddeintyddion y GIG - soniodd sawl person am deithio allan o'r sir i fynd at y deintydd, dywedodd rhai eu bod yn gorfod defnyddio deintydd preifat. Esboniodd un person eu bod wedi cofrestru gyda deintydd GIG yn y Drenewydd o'r blaen a bod eu hapwyntiad olaf wedi bod cyn cyfnod clo COVID. Cafodd apwyntiadau eu canslo gan y Practis ac, yn ddiweddar, pan wnaethant geisio gwneud apwyntiad, dywedwyd wrthynt nad oeddent bellach wedi'u cofrestru oherwydd nad oeddent wedi mynychu apwyntiad mewn 3 blynedd. Roeddent yn teimlo bod hyn yn annheg iawn ac annerbyniol gan nad eu bai nhw oedd nad oeddent wedi gallu mynychu apwyntiad ac nad oeddent bellach yn gallu cael mynediad at ofal deintyddol y GIG.

- Fe wnaeth un person siarad am rywun yn gaeth mewn ysbyty ar ôl cael strôc am nad oedd gwelyau ar gael ym Mhowys.
- Bu rhai yn siarad â ni am y gwasanaeth ambiwlans. Fe wnaethant sylwadau ar yr amseroedd aros ar gyfer ambiwlansys y tu allan i ysbytai. Soniodd un am welliannau gyda'r Adran Achosion Brys ar safle Ysbyty Amwythig. Buont hefyd yn siarad am anawsterau gyda chadw staff yn y Gwasanaeth Ambiwllans ym Mhowys - yn aml iawn bod pobl o'r tu allan i'r sir yn dod i Bowys i gael hyfforddiant ac yna gofyn am drosglwyddiad i ardal arall o Gymru. Roedden nhw'n teimlo y dylid targedu recriwtio at bobl leol sy'n byw ym Mhowys yn llawer mwy.
- Dywedodd un person, sydd â charafán gwyliau ger Y Trallwng, eu bod wedi gallu cael mynediad at wasanaethau gofal iechyd yn yr ardal pryd bynnag y byddai eu hangen arnynt. Roedden nhw'n meddwl bod y gwasanaethau a ddarperir yn Ysbyty'r Trallwng yn dda iawn.
- Gwnaeth un person sylw am yr angen i rywun fod yn ymweld â chartrefi gofal i wirio sut mae pethau i bobl sy'n byw ynddynt ac roeddent yn meddwl ei bod yn dda y byddai Llais yn gwneud hyn. Roedden nhw wedi clywed sylwadau negyddol am gartref gofal yn yr ardal.

SIOE A CHARNIFAL TREF-Y-CLAWDD

Dyddiad: 26 Awst 2023

Yr hyn a wnaethom

Fe wnaethom ddefnyddio ein pabell ac roedd gennym ein taflenni gwybodaeth, ynghyd â digon o eitemau hyrwyddo i'w rhannu. Roedd un aelod o staff ac un gwirfoddolwr wedi ymgysylltu â mwy na 50 o bobl ar y diwrnod.

Roedd llawer o'r ymgysylltu yn egluro i bobl am waith Llais a rhannu eitemau hyrwyddo. Roedd gan bobl ddiddordeb mewn gwybod am yr hyn rydyn ni'n ei wneud gan nad oedden nhw wedi clywed am y sefydliad o'r blaen ac roedd y mwyafrif o bobl y buom yn siarad â nhw yn meddwl ei bod hi'n dda cael Llais yn ei le. Cawsom rai sylwadau gan bobl yn gofyn a fyddai'r bobl sy'n gyfrifol a chynllunwyr gwasanaethau yn gwrando ar eu barn. Fe wnaeth y rhan fwyaf o bobl y buom yn siarad â nhw gymryd copi o'r daflen wybodaeth - fe'u hanogwyd i rannu eu profiad o iechyd a gofal cymdeithasol drwy'r arolwg 'Rhannu Eich Stori' ar y wefan. Roedd copïau papur ar gael i bobl na fyddent yn gallu cael mynediad i arolwg ar-lein. Gwnaethom ddarparu manylion cyswllt ar gyfer y Gwasanaeth Eiriolaeth i bobl a oedd yn siarad am bryderon a oedd ganddynt gyda'r gwasanaethau yr oeddent yn eu derbyn.

Ar ôl sefydlu'r stondin a chyn i'r sioe ddod yn brysur, fe fuom yn crwydro o gwmpas i siarad â deiliaid y stondinau eraill, gan roi esboniad byr am Llais a dosbarthu'r taflenni.

Cawsom wahoddiad agored i fynd draw i grŵp Paned a Sgwrs newydd sy'n cael ei sefydlu yn Nhrefyclo i frwydro yn erbyn unigrwydd.

Roedd gennym ein jariau a'n cownteri ar y stondin i bobl ychwanegu cownteri at jar i ddangos a oeddent yn teimlo bod gwasanaethau'n dda neu y gellid eu gwella.

Cownteri

GIG Da = 4

Gallai'r GIG fod yn well = 1

Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Da = 1

Gallai Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol fod yn well = 3

Yr hyn a glywsom

Ni chawsom sgysiau manwl gyda llawer o bobl. Trafodwyd y themâu canlynol yn ystod y sgysiau a gawsom:

- Mynediad at wasanaethau meddygon teulu - clywsom farn gymysg gyda rhai pobl yn esbonio eu bod yn hapus gyda'u meddygfa a rhai yn dweud eu bod wedi derbyn apwyntiad wyneb yn wyneb brys pan fo angen. Nododd pobl eraill faterion fel anhawster mynd drwodd ar y ffôn, anfodlonrwydd gydag amser aros am apwyntiadau, methu â chael apwyntiadau wyneb yn wyneb, dim digon o feddygon teulu yn y practis lleol, casáu'r system brysbenneu, peidio â dymuno esbonio eu hanghenion iechyd i dderbynnydd, anfon pobl i adrannau damweiniau ac achosion brys yn lle cynnig apwyntiad.
- Esboniodd un person ei bod yn cymryd sawl mis i gael diagnosis canser oherwydd nad oedden nhw'n gallu mynd i weld meddyg, dim ond apwyntiadau ffôn heb unrhyw ganlyniad go iawn oedden nhw. Ar ôl iddyn nhw fynd i mewn i'r system a chael y diagnosis, roedden nhw'n teimlo bod y driniaeth a'r staff yn dda iawn.
- Cawsom sylwadau am gyfathrebu gwael rhwng y practis meddygon teulu a fferyllfa Boots, a arweiniodd at rai pobl yn gorfod mynd yn ôl ac ymlaen rhwng y ddau yn ceisio cael eu meddyginiaeth.
- Diffyg gofalwyr - cafodd hyn ei grybwyll mewn perthynas â phobl sydd angen gofal yn eu cartrefi eu hunain a staffio yn y cartref gofal lleol. Esboniodd un person eu bod yn cael trafferth dod o hyd i ofalwr preifat a allai gefnogi rhywun pan maen nhw'n dod allan o'r ysbyty yn dilyn llawdriniaeth.
- Mynediad at ddeintyddion y GIG - soniodd sawl person am deithio allan o'r sir i fynd at y deintydd, dywedodd rhai eu bod yn gorfod defnyddio deintydd preifat, dywedodd rhai nad oedden nhw'n gallu gweld deintydd GIG ac nad oedden nhw'n gallu fforddio mynd yn

breifat.

- Amser aros am ambiwlansys. Dywedodd pobl nad oes digon o ambiwlansys ym Mhowys.
- Dywedodd rhiant fod yn rhaid iddynt gymryd llawer o amser i ffwrdd o'r gwaith i fynd â'u plentyn i apwyntiadau ysbyty gryn bellter i ffwrdd.
- "Mae cymaint o bobl fregus - dim digon o bobl i ofalu amdanyn nhw". Sylw am staffio yn y GIG a gofal cymdeithasol oedd hwn.
- Gwnaeth pobl sylwadau ar gau'r ward yn Ysbyty Tref-y-clawdd a'r angen iddi gael ei hailagor. Doedden nhw ddim yn teimlo bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud digon i recriwtio'r staff cywir i allu ei ailagor. Nid oeddent wedi sylweddoli bod rhai gwelyau wedi cael eu hagor fel cyfleuster camu i lawr rhwng DGH a'r cartref, gyda chydweithio rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedden nhw'n falch o glywed hyn ond roedden nhw'n dweud bod dal angen agor y gwelyau gofal lliniarol.
- Roedd rhai sylwadau am fwy o arian sydd ei angen ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol - bod arian yn cael ei wastraffu ar bethau eraill e.e cyfyngiad cyflymder o 20mya.

SIOE PONTSENNI

Dyddiad: 2 Medi 2023

Yr hyn a wnaethom

Fe wnaethom ddefnyddio ein pabell ac roedd gennym ein taflenni gwybodaeth, ynghyd â digon o eitemau hyrwyddo i'w rhannu. Roedd dau aelod o staff ac un gwirfoddolwr wedi ymgysylltu â thua 35 o bobl ar y diwrnod.

Roedd llawer o'r ymgysylltu yn egluro i bobl am waith Llais a rhannu taflenni ac eitemau hyrwyddo. Er i rai pobl ddod i siarad â ni am yr hyn rydym yn ei wneud gan nad oeddent wedi clywed am y sefydliad o'r blaen, yn gyffredinol, roedd pobl yn llawer mwy amharod i ddod draw i'r stondin i siarad â ni nag a ddigwyddodd yn y ddau ddigwyddiad blaenorol yn y Drenewydd a Thre-y-clawdd. Roedd pobl hefyd yn fwy amharod i gymryd copi o'r daflen wybodaeth pan gafodd ei chynnig. Roedd y mwyafrif o bobl y buom yn siarad â nhw yn meddwl ei bod yn dda cael Llais yn ei le.



Roedd yn dda cael un o'n Eiriolwyr Cwynion yn gweithio ar y stondin gan ei bod yn gallu siarad â phobl yn fanylach am y Gwasanaeth Eiriolaeth a ddarperir. Darparwyd manylion cyswllt y Gwasanaeth Eiriolaeth i bobl a oedd yn sôn am bryderon a oedd ganddynt gyda'r gwasanaethau yr oeddent yn eu derbyn.

Manteisiwyd ar y cyfle i gerdded o gwmpas i siarad â deiliaid y stondinau eraill, gan roi esboniad byr am Llais a dosbarthu ein taflenni.

Gwnaethom gysylltiadau rhwydweithio da gydag Ymchwil Canser Cymru, Ffermwyr y Gelli ac Aberhonddu, cynrychiolwyr y Fyddin, Undeb

Amaethwyr Cymru a thrafodwyd y posibilrwydd o ddarparu cyflwyniadau i sefydliadau. Buom yn siarad â phobl ar stondin y Ceidwadwyr Cymreig a chawsom ein cyflwyno i'r ymgeisydd oedd yn sefyll dros y Democratiaid Rhyddfrydol Cymreig yn yr etholiad nesaf.

Roedd gennym ein jariau a'n cownteri ar y stondin i bobl nodi a oeddent yn teimlo bod gwasanaethau'n dda neu y gellid eu gwella.

Cownteri

GIG Da = 8

Gallai'r GIG fod yn well = 13

Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Da = 2

Gallai Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol fod yn well = 12

Gwnaethom annog pobl i gwblhau cerdyn post gydag esboniad byr o pam eu bod yn credu y gallai gwasanaethau fod yn well. Rydym wedi derbyn y sylwadau canlynol:

GIG

Profiadau da yn lleol ond yn teimlo nad oes digon o adnoddau.
Dwi'n meddwl eu bod nhw'n dda, ond mae fy neintydd yn ddrwg.
Yn dilyn damwain rwyf wedi bod o dan ymgynghorydd am anaf [...] Mae'r gwasanaeth wedi bod yn dda ond yn araf. Roedd yn rhaid aros ac aros ac roedd yn ofidus gan fod angen triniaeth arnaf. Ar ôl i mi weld ymgynghorydd a ffisiotherapi roedden nhw'n dda iawn - ond aros yn rhy hir ac yn dal i aros i ddelio gydag anaf.
Angen llawdriniaeth gwbl weithredol ym Mhontsenni.
Roedd Ward Mamolaeth Bronglais yn wych ac wedi gwneud yr hyn a allai fod yn brofiad brawychus, yn un hawdd a hamddenol.
<ul style="list-style-type: none">• Meddygon diystyriol• Mae'n anodd cael apwyntiadau wyneb yn wyneb• Meddygon heb ddiddordeb• Nid yw pum munud ar y ffôn yn ddigon• Teimlo fel na allaf eu ffonio gan na fyddaf yn cael yr help sydd ei angen arnaf• Aros am gyngor am 3 blynedd

- Gwrthododd meddygon ofal ar y cyd am ddiagnosis preifat o [...]
- Mae cylchoedd i neidio trwyddynt yn anodd i rywun sydd [...]

Gofal Cymdeithasol

- Dim digon o draed ar y llawr
- Mae llawer o deuluoedd yn mynychu grwpiau babanod sy'n cael eu rhedeg gan yr eglwys i gael cymorth. Byddai grŵp babanod/plentyn bach sy'n cael ei redeg gan yr awdurdod lleol yn dal llawer o deuluoedd ar yr un pryd

Anodd cael gofal mewn ardaloedd gwledig - mae'n debyg oherwydd y pellter dan sylw a lwfans milltiroedd isel.

Yr hyn a glywsom

Nid ydym wedi cael sgysiau manwl gyda llawer o bobl. Trafodwyd y themâu canlynol yn ystod y sgysiau a gawsom:

Gwasanaethau GIG

- Eglurodd sawl person bod eu profiad o wasanaethau iechyd yn gadarnhaol iawn. Ymhlith y gwasanaethau a siaradwyd amdanynt roedd cardioleg (Ysbyty Henffordd), gofal canser (Uned Macmillan yn Ysbyty'r Tywysog Charles a Chanolfan Ganser Felindre), gwasanaethau orthopedig (Ysbyty Henffordd), adrannau damweiniau ac achosion brys, gwasanaethau mamolaeth (Ysbyty Bronglais), gofal strôc, gofal nyrsio yn yr ysbyty (Ysbyty Glangwili). Siaradodd un person am ei rieni a oedd ill dau wedi cael diagnosis diweddar o gyflyrau iechyd ac roedd yn falch bod hyn wedi digwydd yn gyflym.
- Mynediad at wasanaethau meddygon teulu - clywsom farn gymysg gyda rhai pobl yn esbonio eu bod yn hapus gyda'u meddygfa a rhai yn mynegi eu hanfodlonrwydd. Y prif faterion a adroddwyd oedd anhawster mynd drwodd ar y ffôn, anfodlonrwydd gydag amser aros am apwyntiadau, methu cael apwyntiadau wyneb yn wyneb, tanddefnydd o'r feddygfa leol ym Mhontsenni a gorfod teithio i

Aberhonddu.

- Mynediad at ddeintyddion y GIG - siaradodd nifer o bobl am ddiffyg deintyddion y GIG.
- Amseroedd aros yn dilyn atgyfeiriad am ofal eilaidd - dydy pobl ddim yn gwybod pa mor hir y dylen nhw ddisgwyl aros am apwyntiadau / triniaeth. Mae cyfathrebu gwael unwaith y bydd atgyfeiriad yn cael ei wneud.
- Siaradodd rhai am yr uned famolaeth yn Ysbyty Bronglais a dweud eu bod wedi cael gwybod gan y bydwragedd bod posibilrwydd y byddai'r uned yn cael ei newid i fod yn uned dan arweiniad bydwragedd. Byddai hyn yn golygu y byddai'n rhaid i fenywod oedd angen gofal mwy arbenigol yn ystod genedigaeth, fel triniaeth cesaraidd, deithio i Gaerfyrddin. Ar ôl profi genedigaeth drwy driniaeth cesaraidd brys, roedd hyn yn peri pryder mawr iddyn nhw oherwydd y pellter i deithio.

Rydym wedi gwirio hyn gyda Llais yng Ngorllewin Cymru ac maent wedi cynghori bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi dweud nad oes cynlluniau i wneud yr uned famolaeth bresennol yn uned dan arweiniad bydweigiaeth yn Ysbyty Bronglais.

Gofal Cymdeithasol

- Diffyg gofalwyr - cafodd hyn ei grybwyll mewn perthynas â phobl oedd angen gofal yn eu cartrefi eu hunain. Siaradodd un person am glaf sy'n gaeth yn yr ysbyty oherwydd na fu'n bosibl rhoi pecyn gofal ar waith. Cafodd ei grybwyll hefyd gan rywun y mae ei gŵr yn derbyn gofal diwedd oes - eglurodd nad yw'n cael unrhyw gefnogaeth gan ofalwyr.
- Cawsom drafodaethau am yr angen am fwy o ofalwyr ac, er mwyn annog pobl i mewn i'r rolau, roedd angen iddo ddod yn wasanaeth mwy proffesiynol gyda gwell tâl ac amodau a gwell cyfleoedd i ennill cymwysterau.
- Dywedodd un person fod eu perthynas wedi dod allan o'r ysbyty yn ddiweddar. Roedd y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi dweud bod angen [addasiadau i'r cartref] ond roedd eu [perthynas] wedi bod adref am 3 wythnos ac nad oedd unrhyw [addasiadau] wedi'u rhoi ar

waith.

- Dywedodd un person nad oedd eu profiad o ofal cymdeithasol yn dda. Dywedon nhw fod Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud pethau sydd o fewn y gyfraith, ond nid yw hynny bob amser yn ymddangos yn iawn. Roeddent yn teimlo bod angen monitro gwasanaethau'n well.
- Dim digon o arian yn y system.

CRYNODEB

Rhannwyd yr holl adroddiadau uchod gyda Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Chyngor Sir Powys. Mae'r ddau sefydliad wedi rhannu'r adborth gyda'u thimau profiad y claf/defnyddwyr gwasanaeth a sicrhau ansawdd. Bydd y wybodaeth a gesglir yn cael ei hystyried fel rhan o'u hymagwedd ehangach at ansawdd a gwella gwasanaethau.

DIOLCH

Diolchwn i bawb a roddodd o'u hamser i rannu eu barn a'u profiadau gyda ni am eu gwasanaethau iechyd a gofal ac i rannu eu syniadau.

Gobeithiwn fod yr adborth y mae pobl wedi'i gymryd o'u hamser i'w rannu yn dylanwadu ar wasanaethau gofal iechyd i gydnabod a gwerthfawrogi'r hyn y maent yn ei wneud yn dda - a chymryd camau lle mae angen iddynt wneud cyn gynted ag y gallant i wella pethau.

ADBORTH

Byddem wrth ein bodd yn clywed eich barn am y cyhoeddiad hwn, ac unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gallem fod wedi'i wella, fel y gallwn ei ddefnyddio i wneud ein gwaith yn y dyfodol yn well.

MANYLION CYSWLLT

RHANBARTH LLAIS POWYS,
LLAWR GYNTAF, NEUADD BRYCHEINIOG,
FFORDD CAMBRIAN,
ABERHONDDU, POWYS,
LD3 7HR.

FFÔN: 01874 624206
E-BOST: POWYSENQUIRIES@LLAISCYMRU.ORG
GWEFAN: WWW.LLAISCYMRU.ORG
FACEBOOK: @LLAISPOWYS
TWITTER: LLAIS_WALES

LLAWR GYNTAF,
Tŷ LADYWELL,
Y DRENEWYDD, POWYS,
SY16 1JB.

FFÔN: 01686 627632